# PWYLLGOR ARCHWILIO

Dydd Mercher, 30 Medi 2015

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd C.P. Higgins (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, J.D. James, Sir D.Lewis, A.G. Morgan, E.G. Thomas, G.B. Thomas, W.G. Thomas a/ac D.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
O. Bowen, Prif Cyfrifydd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Jones, Procurement & Contracting Officer
C. Moore, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
H. Pugh, Y Rheolwr Archwilio a Rheoli Risg
P. Sexton, Y Pennaeth Archwilio, Rheoli Risg a Chaffael
R. Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 11.45 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| H.A.L. Evans | 10 - Datganiad Cyfrifon 2014/15 | Cyn-Drysorydd Menter Gorllewin Sir Gâr |

## 3. ADRODDIAD DIWEDDARU YNGHYLCH CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu Cynllun Archwilio Mewnol 2015/16.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad diweddaru ynghylch Cynllun Archwilio Mewnol 2015/16 yn cael ei dderbyn, at ddibenion monitro.**

## 4. Y GRANT CEFNOGI POBL – ADRODDIAD CYNNYDD.

Gan gyfeirio at gofnod 5 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 10fed Gorffennaf 2015, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi crynodeb o'r gwaith a oedd wedi'i wneud hyd yn hyn gan y Tîm Cefnogi Pobl i wella ei brosesau rheoli grantiau a chontractau fel y nodwyd yn Adroddiad y Rheolwr Archwilio a Risg y cyfeiriwyd ato yn y cofnod uchod. Y farn oedd fod cynnydd da yn cael ei wneud ac y byddai'n cael ei fonitro gan y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cymunedau.
Mewn ymateb i gwestiwn dywedwyd y byddai amlder cyfarfodydd adolygu / monitro contractau yn cael ei nodi yn y contractau ac, yn ddelfrydol, y byddent yn

cael eu cynnal bob chwarter neu bob chwe mis. Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod angen sicrhau fod perfformiad adolygiadau'n cael ei reoli a phwysleisiodd fod hynny wedi cael ei feithrin yn y Tîm Cefnogi Pobl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r cynnydd a wnaed a'r amcanion gwaith parhaus.**

## 5. YSTYRIED Y DOGFENNAU CANLYNOL A BARATOWYD GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU:-

Croesawodd y Cadeirydd Mr. Geraint Norman, Mr. Richard Stradling a Mr Jeremy Evans o Swyddfa Archwilio Cymru, i'r cyfarfod.

### 5.1. ADRODDIAD DIWEDDARU I'R PWYLLGOR ARCHWILIO - MEDI 2015;

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith archwilio a wnaed/sydd i'w wneud ynghylch yr Awdurdod gan Swyddfa Archwilio Cymru oddi ar y cyfarfod diwethaf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

### 5.2. ASESIAD O ARCHWILIO MEWNOL.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch ei hasesiad o'r Is-adran Archwilio Mewnol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Nododd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau Archwilio Mewnol addas a bod gwasanaeth effeithiol yn cael ei ddarparu. Roedd yr asesiad wedi rhoi bod i bedwar argymhelliad:-

(i) Dylid diweddaru'r Llawlyfr Archwilio Mewnol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys y gweithdrefnau newydd ar gyfer cadw gwybodaeth gyfrinachol yng Nghynllun Ffeiliau'r Cyngor;

(ii) Dylai trefniadau ar gyfer asesiad allanol annibynnol o Archwilio Mewnol bob pum mlynedd gael eu cadw mewn golwg a'u rhoi ar waith cyn gynted â phosibl;

(iii) Er mwyn ategu'n llawn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, dylai Archwilio Mewnol gymryd camau dilynol ar ddiwedd y flwyddyn i sicrhau nad oes unrhyw newidiadau i'r system a'r rheolaethau a brofwyd yn y flwyddyn, yn benodol o ran y systemau sylfaenol neu systemau allweddol eraill a brofwyd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol;

(iv) Er mwyn cryfhau ymhellach y wybodaeth a roddir i'r Pwyllgor Cynllunio, yn benodol ar gyfer cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, dylai Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol gynnwys yr argymhellion tair seren a nodwyd yn y flwyddyn a chrynodeb o'r themâu cyffredin sy'n deillio o'r argymhellion dwy seren.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch argymhelliad 2, dywedwyd y dylai'r asesiadau allanol, a fyddai'n berthnasol i holl Awdurdodau Cymru, fod, yn ddelfrydol, ar ffurf adolygiad gan gymheiriaid, gyda golwg ar gadw'r gost mor isel â phosibl, a gynhelir gan awdurdod lleol arall yng Nghymru yn ôl fformat safonol ond na ddylai dau awdurdod lleol asesu ei gilydd;
- Mynegwyd pryder ynghylch y pwysau gwaith yn yr adain Archwilio a dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod swydd ychwanegol yn cael ei chreu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**5.3. SAFON RYNGWLADOL AR ARCHWILIO (ISA) 260 CYNGOR SIR CAERFYRDDIN.**

Atgoffwyd y Pwyllgor fod yr aelodau yn y cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 10fed Gorffennaf 2015 wedi cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2014/15 yr Awdurdod. Ar sail hynny, yr oedd yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal archwiliad a rhoi barn am gywirdeb a thegwch y Datganiad.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at yr adroddiad manwl lle roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi barnu nad oedd dim camddatganiadau wedi eu clustnodi yn y datganiadau ariannol a oedd yn dal heb eu cywiro. O ganlyniad roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ynghylch y datganiadau ariannol ond byddai hwn yn cynnwys paragraff Pwysleisio Mater mewn perthynas â ffigyrau cymharol y flwyddyn flaenorol. Byddai'r adroddiad archwilio yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y deuai'r Llythyr Sylwadau i law. Mewn perthynas â'r ddogfen olaf, yr oedd drafft ohoni wedi cael ei hatodi i'r adroddiad, awgrymwyd y dylid aileirio dwy frawddeg ychydig er mwyn diogelu'r llofnodwyr.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r mater a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwneud â balans y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn cael sylw, yn ogystal â'r taliadau a wneir ymlaen llaw i gontractwyr cymorth TG allanol ar gyfer contractau sy'n para 4 neu 5 mlynedd.

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'i staff am eu gwaith dyfal a'u hymrwymiad yn paratoi cyfrifon y Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad ac aileirio'r fersiwn drafft o'r llythyr sylwadau fel yr awgrymwyd.**

**5.4. SAFON RYNGWLADOL AR ARCHWILIO (ISA) 260 CRONFA BENSIWN DYFED.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddwyd ger ei fron, sef adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch yr archwiliad a gynhaliwyd o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn ystyried a oedd y datganiad ariannol yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed ar 31ain Mawrth, 2015 a'i hincwm a'i gwariant yn ystod y flwyddyn honno.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at yr adroddiad manwl lle roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi barnu nad oedd dim camddatganiadau wedi eu clustnodi yn y datganiadau ariannol a oedd yn dal heb eu cywiro. Roedd nifer o fân gamddatganiadau wedi'u cywiro gan y rheolwyr. O

ganlyniad roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ynghylch datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed cyn gynted ag y deuai'r Llythyr Sylwadau [fel y'i diwygiwyd yn unol â chofnod 5.3 uchod] i law.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

### 5.5. TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH – ARCHWILIAD O GYNLLUN GWELLA 2015/16 AC ASESIAD O BERFFORMIAD 2014/15.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Dystysgrif Cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn sgil yr Archwiliad o Gynllun Gwella 2015-16 ac Asesiad o Berfformiad 2014-15 y Cyngor ar y cyd.**

### 5.6. ASESIAD CORFFORAETHOL – BRIFF PROSIECT.

Roedd adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael ei ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor a oedd yn rhoi manylion am drefniadau arfaethedig i gynnal asesiad gwella er mwyn penderfynu a oedd yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 6. LLYTHYR SYLWADAU 2014/15 I SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – CYNGOR SIR CAERFYRDDIN.

Hysbyswyd y Pwyllgor ei bod yn ofynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â'r Datganiad Safonau Archwilio (SAS440 – Sylwadau Rheolwyr), fod Swyddog Adran 151 yr Awdurdod, yn llunio "Llythyr Sylwadau" yn flynyddol, a bod y llythyr hwn yn cael ei lofnodi gan y Swyddog hwnnw a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Ar ben hyn, roedd yn ofynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru fod y Pwyllgor oedd yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon o dan Reoliad 8 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn cydnabod ymateb y Swyddog Adran 151 yn ffurfiol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gydnabod y Llythyr Sylwadau i Swyddfa Archwilio Cymru a gafodd ei lunio gan y Swyddog Adran 151.**

## 7. YMHOLIADAU ARCHWILIO I'R RHEINY SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLI – CYNGOR SIR CAERFYRDDIN.

Roedd adroddiad wedi cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor a oedd yn rhoi manylion am ymatebion i geisiadau a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio er mwyn i Swyddfa Archwilio Cymru fodloni'r gofynion a nodir yn y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio i fynd ati'n ffurfiol i gael ystyriaeth a dealltwriaeth gofnodedig yr Awdurdod ynghylch nifer o feysydd llywodraethu sy'n effeithio ar archwilio datganiadau ariannol. Roedd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i reolwyr y Cyngor a'r 'rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu' (y Pwyllgor Archwilio).
Roedd y wybodaeth a roddwyd yn llywio dealltwriaeth Swyddfa Archwilio Cymru o'r Cyngor a'i brosesau busnes ac yn cefnogi gwaith Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu barn archwilio ynghylch datganiadau ariannol 2014-15.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r ymatebion i geisiadau a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

**8. LLYTHYR SYLWADAU 2014/15 I SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - CRONFA BENSIWN DYFED.**

Hysbyswyd y Pwyllgor ei bod yn ofynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â'r Datganiad Safonau Archwilio (SAS440 – Sylwadau Rheolwyr) fod Swyddog Adran 151 yr Awdurdod yn llunio "Llythyr Sylwadau" yn flynyddol, a bod y llythyr hwn yn cael ei lofnodi gan y Swyddog a enwid uchod a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.Yn ogystal, roedd yn ofynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru fod y Pwyllgor sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon o dan Reoliad 8 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn cydnabod yr ymateb yn ffurfiol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gydnabod y Llythyr Sylwadau i Swyddfa Archwilio Cymru a gafodd ei lunio gan y Swyddog Adran 151.**

**9. YMHOLIADAU ARCHWILIO I'R RHEINY SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLI – CRONFA BENSIWN DYFED.**

Roedd ymatebion yr Awdurdod i Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch nifer o feysydd llywodraethu sydd wedi effeithio ar archwilio'r datganiadau ariannol, wedi cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor. Roedd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i reolwyr Cronfa Bensiwn Dyfed a'r 'rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu' (y Pwyllgor Archwilio). Roedd y wybodaeth a roddwyd yn llywio dealltwriaeth Swyddfa Archwilio Cymru o Gronfa Bensiwn Dyfed a'i phrosesau busnes ac yn cefnogi'i gwaith i ddarparu barn archwilio ynghylch datganiadau ariannol 2014-15.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r ymatebion i'r ceisiadau a gyflwynwyd i'r rheolwyr ac i'r Pwyllgor Archwilio.**

**10. DATGANIAD CYFRIFON 2014/15 CYNGOR SIR CAERFYRDDIN.**

(NODER: Roedd y Cynghorydd H.A.L. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon gan ei bod yn gyn-Drysorydd Menter Gorllewin Sir Gâr).

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, cafodd Datganiad Cyfrifon 2014/15 a oedd yn ymwneud â Chyngor Sir Caerfyrddin a Chronfa Bensiwn Dyfed ac a oedd wedi'i archwilio, ei roi gerbron y Pwyllgor i'w gymeradwyo. Roedd y Datganiad yn dwyn ynghyd holl drafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn am y flwyddyn, a hefyd roedd yn rhoi manylion asedau a rhwymedigaethau'r Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn fel yr oeddent ar 31ain Mawrth, 2015.

Unwaith eto mynegodd aelodau'r Pwyllgor eu gwerthfawrogiad i'r holl swyddogion a fu'n gysylltiedig â llunio cyfrifon rhagorol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2014/15 (Cyngor Sir Caerfyrddin a Chronfa Bensiwn Dyfed) a oedd wedi'i archwilio.**

**11. DATGANIAD ARIANNOL HARBWR PORTH TYWYN 2014/15.**

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, derbyniodd y Pwyllgor i'w gymeradwyo Ddatganiad Cyfrifon 2014/15 wedi'i archwilio mewn perthynas â Harbwr Porth Tywyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo datganiad cyfrifon harbwr**

**Porth Tywyn 2014-15 wedi'i archwilio.**

**12. COFNODION Y GRŴP LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 1af Mai, 2015.**

**13. COFNODION Y GRŴP LLYWIO RHEOLI RISG.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Rheoli Risg a gynhaliwyd ar 2il Gorffennaf, 2015.**

**14. COFNODION Y PANEL GRANTIAU.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y panel grantiau a gynhaliwyd ar 4ydd Medi, 2015.**

**15. LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 10FED GORFFENNAF 2015 YN GOFNOD CYWIR.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 10fed Gorffennaf, 2015 yn cael eu llofnodi gan eu bod yn gywir.**

__________________________ ________________________

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**